<u>Ar ddydd Mawrth, 29ain Gorffennaf 2008</u> cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00 pm.

<u>PRESENNOL:</u> Y Cyng. Mr R Owen (Cadeirydd); Mrs G Price; Msri T Davies; D Sheppard; T Lewis; M Evans; D Jones; DM Hughes; Mrs E Davies; Mrs K Walker a'r clerc

Roedd y Cynghorydd Sir D Suter yn bresennol hefyd.

2437 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. D R Morgan.

2438 Materion Personol: Dim

2439 Datgan Diddordeb Personol: Datganodd y Cyng. K Walker ddiddordeb yng Nghofnod 2460 (costau teithio) a gadawodd y Cyfarfod cyn y trafodwyd yr eitem.

2440 Cadarnhau Cofnodion: PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2008 fel cofnod cywir o'r Cyfarfod yn amodol ar ddiwygio Cofnod 2407 o'r copi Cymraeg i 'Canolfan Gymdeithasol Trefeurig'. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:

Cofnod 2403 Strategaeth Dai Ddrafft: Rhoddodd y Cyng. R Owen amlinelliad cryno o gynnwys y ddogfen gynhwysfawr hon. PENDERFYNWYD ei nodi.

Cofnod 2403 Cod Ymddygiad: Derbyniwyd copïau o'r canlynol gan y Swyddog Monitro:

(1) Cais am ffurflen oddefeb (i'w chwblhau gan gynghorydd sydd â diddordeb personol mewn mater sydd i'w drafod gan y Cyngor, ac sydd am wneud cais i Bwyllgor Safonau Ceredigion i gael ei ryddhau i siarad yn unig neu i siarad a phleidleisio ar y mater).

(2) Ffurflen Datgan Diddordeb Personol. I'w chwblhau gan Gynghorydd sydd â diddordeb personol mewn mater sydd i'w drafod gan y Cyngor. PENDERFYNWYD parhau gyda'r arfer bresennol o gofnodi eitemau o ddiddordeb personol mewn llyfr a gedwir gan y clerc.

Yn unol â'r cyfarwyddwyd a dderbyniwyd, gosodwyd Hysbysiad Cyhoeddus yn y Cambrian News (17/07/08) yn datgan bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod newydd. Mae copïau o'r Cod ar gael i'w harchwilio ac anfonir copi o'r Cod newydd ymlaen i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cofnod 2420 Cais am grant personol: Mewn ymateb i ymholiad y Cyngor, mae Un Llais Cymru'n cynghori nad oes gan awdurdod lleol, yn eu barn nhw, y pŵer i roi cyfraniad ariannol i unigolyn. PENDERFYNWYD nodi hynny a rhoi gwybod i'r ymgeisydd.

Cofnod 2436 Adolygiad o Oleuadau Llwybrau Troed: Ar 30ain Mehefin 2008 cynhaliwyd Cyfarfod gyda chynrychiolydd Scottish Power i drafod goleuadau ychwanegol ar hyd llwybrau troed. Ymwelwyd â phedair ardal ym Mhenrhyn-coch a Phenrhiwnewydd a chytunodd Scottish Power i gyflwyno dyfynbrisiau ar gyfer cysylltu trydan i'r safleoedd hyn. Yn dilyn hynny bydd y Cyngor yn gofyn am ddyfynbris gan gontractwr lleol ar gyfer gosod lampau.

Cofnod 2436 Heddwas Cymunedol: Ni chafwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn gan yr Heddwas Cymunedol lleol i'r eitemau a godwyd yn dilyn ei ymweliad â chyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin.

Cofnod 2436 Materion Priffyrdd - Trefeurig: Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r materion priffyrdd amrywiol a godwyd yng nghyfarfod mis Mehefin a anfonwyd ymlaen at yr Adran Briffyrdd. PENDERFYNWYD anfon copïau o'r eitemau i'r Cyng. Sir, D Suter.

Cofnod 2436 Cyfeiriad post Penbontrhydybeddau: Yn dilyn cynnig y dylid newid y cyfeiriad post i 'Penbontrhydybeddau' o 'Cwmsymlog'; PENDERFYNWYD canfasio barn trigolion PENBONTRHYDYBEDDAU

2441 Adroddiadau Cyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:

<u>Cyfarfod Un Llais Cymru - Aberaeron, 16 Gorffennaf 08:</u> Rhoddodd y Cyng. R Owen adroddiad ar y Cyfarfod Ardal a'r gweithdy dilynol mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol a gynhaliwyd yn Aberaeron ar 28ain Gorffennaf. PENDERFYNWYD y dylid gwneud copïau o'r holiadur byr roedd angen ei ddychwelyd erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ardal yn yr hydref a'i ddosbarthu i'r aelodau ei drafod yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi.

Te Parti Cylch Meithrin Trefeurig: Dwedodd y Cyng. R Owen iddo fynychu a mwynhau'r te parti yn Neuadd y Penrhyn
Garddwest Frenhinol 15 Gorffennaf 2008: Adroddodd y Cyng. K Walker iddi fynychu'r Arddwest a bu'n brofiad diddorol a phleserus ar ddiwrnod heulog, braf. Diolchodd i'r Cyngor am ei henwebu i'w cynrychioli yn y digwyddiad hwn.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

2442 **Gwerthu Ysgoldy Trefeurig:** Cydnabyddiaeth gan Adran Ystadau Ceredigion eu bod wedi derbyn llythyr y Cyngor yn cefnogi Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig yn ei feirniadaeth o'r Cyngor Sir yn rhoi'r Ysgoldy ar werth cyn cwblhau'r trafodaethau am y les gyda'r Grŵp Datblygu. PENDERFYNWYD ysgrifennu eto'n gofyn i'r Sir ganiatáu'r les cyn dod â threfniadau gwerthu'r tŷ i ben.

2443 **Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru:** Rhestr o chwe model hyfforddi fydd ar gael. PENDERFYNWYD enwebu'r Cyng. R Owen i fynychu 'Deall y Gyfraith'. Cost £25.
Gwobrau Cadw Cymru'n Daclus 2008: Gwahoddiad i wneud cais am Wobr. PENDERFYNWYD ei anfon 'mlaen i PATRASA.

2444 **LICC – Adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol:** Trafodwyd y ddogfen a PHENDERFYNWYD ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.

2445 **Ffonau Talu BT:** Llythyr ymgynghorol gan Geredigion ynghylch bwriad BT i gael gwared â ffonau talu sydd ddim yn gwneud elw. Mae pum blwch ffôn o'r fath wedi'u lleoli o fewn Cymuned Trefeurig. PENDERFYNWYD gwrthwynebu'r bwriad i gael gwared ohonynt ar sail y ffaith eu bod yn cynnig gwasanaeth brys hanfodol mewn ardaloedd gwledig gyda phoblogaeth isel sy'n boblogaidd gyda cherddwyr a rhai sy'n marchogaeth ceffylau, beiciau modur a beiciau mynydd petai damwain yn digwydd, gan nad oes signal ffôn symudol ar gael na chludiant cyhoeddus chwaith.

2446 **Cae Chwarae Penbontrhydybeddau :** Ymholiad ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y fynedfa lydan i'r cae chwarae. PENDERFYNWYD cymryd golwg ar y les.

2447 **Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol LICC:** PENDERFYNWYD ei dderbyn.

2448 **Cynllun Plant a Phobl Ifanc Ceredigion (2008-2011):** PENDERFYNWYD pasio'r ddogfen ymgynghorol ymlaen i'r Cyng. G Price ei hystyried.

2449 **Cyfarfod Agored y Cyngor Cymuned:** Mewn ymateb i lythyr gan un o'r trigolion lleol yn gofyn a ydy'r Cyngor wedi galw'r Cyfarfod Agored blynyddol. PENDERFYNWYD cadarnhau bod y Cyfarfod Agored ar 13eg Mai 2008 am 7.00 pm ac yna'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 7.30 pm wedi'i hysbysebu ar hysbysfyrddau'r gymuned ac nad yw'r Cyngor yn bwriadu cynnal Cyfarfod Agored arall eleni. Gall trigolion lleol fynychu Cyfarfodydd y Cyngor a gallant ofyn am gael siarad cyn i'r cyfarfod ddechrau neu gallant ysgrifennu a gofyn am gynnwys eitem i'w drafod ar Agenda'r cyfarfod Cyngor.

2450 **Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:** Cyngor i'r Cyhoedd ar sut i gwyno ynghylch torri'r Cod Ymddygiad. PENDERFYNWYD gwneud copïau o'r ffurflenni sydd ar gael yn lleol. Y clerc i ofyn a ellid gosod rhesel arddangos fach yng Nghanolfan Gymdeithasol Trefeurig.
9.00 pm: Ymddiheurodd y Cyng. K Walker a gadawodd y Cyfarfod.

2451 **Newidiadau i Bolisïau Cynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol:** Dogfen ymgynghorol ar y bwriad i wella'r deddfau cynllunio ar gyfer Cefn Gwlad Cymru. PENDERFYNWYD pasio'r ddogfen i'r Cyng. R Owen ei hystyried ac adrodd yn ôl arni yng nghyfarfod mis Medi.

2452 **Stoc Dai CS Ceredigion:** Rhybudd ynghylch Cyfarfodydd Sir i drafod cynigion. PENDERFYNWYD ei nodi.

9.10 pm: Gadawodd y Cyng. Sir D Suter y Cyfarfod. Tynnwyd ei sylw at nifer o faterion lleol yn ddiweddar ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr eitemau ar gyfer agenda nesaf y Cyngor.

MATERION ARIANNOL

2453 **HSBC Cyfrif *Business M/M*:** Balans 30/06/08 - £4,530.44 (taflen 104)
HSBC Cyfrif Cymunedol: Balans 13/07/08 - £8,009.65.(taflen 286)
PENDERFYNWYD trosglwyddo £5,000 i'r Cyfrif *Business M/M*

2454 **Archwiliad 2007/08:** Mae'r Archwiliad Mewnol o gyfrifon ariannol y Cyngor wedi'i gwblhau'n foddhaol. Derbyniodd bob Cynghorydd gopi o adroddiad yr Archwilydd **Archwiliad Allanol 2007/2008:** Mae'r dogfennau angenrheidiol wedi'u hanfon ymlaen i'r Archwilwyr Allanol, BDP Stoy Hayward o Southampton, ynghyd â'r holiadur rhyng-archwiliad wedi'i gwblhau; Roedd copi o hwnnw ar gael i'r Cyngor ei archwilio.

2455 **Allianz Insurance:** Ar 07/07/08 anfonwyd taliad Yswiriant ychwanegol o £65.10 (siec 866) i Allianz Insurance (gweler Cofnod 2428)

2456 **Cambrian News:** Siec 867 am £181 +TAW £31.67 **Cyfanswm £212.67** wedi'i dalu i'r Cambrian News (07/07/08) - Hysbysiad Cyhoeddus ar gyfer y Cod Ymddygiad (gweler Cofnod 2429).

2457 **Costau Etholiadol 2008:** Rhybudd gan Adran Gyllid Ceredigion y bydd taliad o £129.30 yn cael ei dynnu o Archebiant 2009 yn Ebrill 2009. PENDERFYNWYD gofyn am fanylion y costau.

Cytunwyd i dalu'r Anfonebau canlynol:

2458 **L Griffiths –** Cyfieithu - Mehefin 2008 £53.28 (siec 869)

2459 **B Smith –** Archwiliad mewnol o'r cyfrifon ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.08 - £150 (siec 870)

2460 **Cyng. K Walker –** costau teithio i'r Arddwest ar 15/07/08 fel Cynrychiolydd y Cyngor - £239.98 (siec 871)

Nodwyd y penderfyniadau Cynllunio canlynol:

2461 **A061250** Llain ger Brynawel, Cefnllwyd codi tŷ: Rhoddwyd caniatâd

2462 **A071261** Y Ddôl Fach, 10 annedd. Rhoddwyd caniatâd

2463 **A080185** Tir ger Arosfa, Salem, codi annedd: Rhoddwyd caniatâd

2464 **A080262** Tir ger Awelon, Cefnllwyd, codi annedd: Caniatâd wedi'i wrthod

2465 **A080377** Plas y Coed, Cwmerfyn, estyniad: Rhoddwyd caniatâd

2466 **A080442** 1 Glanseilo, Penrhyn-coch, estyniad: Rhoddwyd caniatâd

2467 **A080582** 3 Pen y berth, Penrhyn-coch, gwelliannau: Rhoddwyd caniatâd

2468 **A080585** Rhoserchan, Penrhyn-coch, Paneli solar: Rhoddwyd caniatâd

Ystyriwyd y ceisiadau Cynllunio canlynol:

2469 **A080621** Llain ger Gelli Cottage, Cefnllwyd, codi annedd: Dim gwrthwynebiad

2470 **A080701** Tir ger yr Hen Ysgol Trefeurig, Penbontrhydybeddau - codi annedd: Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais hwn. Mae'r safle y tu allan i'r ffurf adeiladu bresennol ac o ran diogelwch byddai'n broblem gweld yn iawn o'r ochr ddwyreiniol. Os oes yna alw am dai ychwanegol ym Mhenbontrhydybeddau, mae yna safleoedd mwy addas o fewn y setliad presennol

2471 **A080277** Sied offer amaethyddol arfaethedig yng Nghwmerfyn: Derbyniwyd copi o lythyr mewn perthynas â'r cais hwn. PENDERFYNWYD ei ffeilio.

2472 Cynhelir **y Cyfarfod nesaf** ar ddydd Mawrth, 16eg Medi 2008 am 7.00 pm yn Hen Ysgol Trefeurig.

2473 **Cytunwyd i gynnwys y canlynol ar yr agenda nesaf:**
Y cynnig i osod hysbysiad ar holl hysbysfyrddau'r Gymuned yn rhoi rhif cyswllt ar gyfer rhoi gwybod am oleuadau llwybrau troed diffygiol.
Ffordd Salem a Chae Mawr - dŵr yn cronni ar y ffordd oherwydd ffosydd diffygiol
Ceisiadau am fwy o oleuadau a mwy o finiau baw cŵn.
Cais i osod graean ar yr ardal parcio ym Mhenrhiwnewydd.
Cais am glwyd diogelwch ar hyd ymyl ffordd ystâd Tan y berth
Ardal amwynder - ystâd Dolhelyg

Daeth y Cyfarfod i ben am 10.00 pm.